# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

**RHAN 1**

ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

**PENNOD 4**

DIRYMU CYFARWYDDYD I ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

VALID FROM 03/09/2012

**25 Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod cais awdurdod tai lleol o dan adran 23 (heb iddynt ystyried a yw is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei ganiatáu ai peidio) os ydynt o'r farn bod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd o dan adran 27 mewn perthynas â'r cais.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu'r cais os ydynt yn cytuno â chasgliad yr awdurdod ynghylch pam y mae'r cyflwr a ddisgrifir yn adran 23(2) yn bodoli.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn caniatáu'r cais, rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig o'r ffaith honno a bydd y cyfarwyddyd yn peidio â chael effaith ar y dyddiad y rhoddir y cyfryw hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 90(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 02/12/2011. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, Adran 25.